

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol

Tachwedd 2021

1. Cefndir

1. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol. Gosodwyd y Memorandwm ar 11 Awst 2021.
2. Ar 14 Medi 2020, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w ystyried
3. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r Memorandwm yw 4 Tachwedd 2021. Ystyriodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ei adroddiad yn ei gyfarfod ar 1 Tachwedd 2021.

2. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

4. Mae paragraffau 3 i 5 o'r Memorandwm yn crynhoi'r Bil a'i amcanion. Mae paragraffau 6 i 7 yn crynhoi'r darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer. Mae paragraffau 8 i 13 yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. Mae paragraff 14 yn nodi goblygiadau ariannol y Bil.



5. Yn benodol, mae paragraff 5.iii yn nodi *[M]ae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ar gyfer swyddi barnwrol. Mae'n gosod oedran ymddeol gorfodol o 75 ar gyfer rhai swyddi barnwrol ac yn gwneud darpariaeth i farnwyr sy'n eistedd ar ôl ymddeol (ond nid y tu hwnt i 75 oed).*

3. Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

6. Nodir cymalau'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn Rhan 3 o'r Bil ac mae crynodeb ohonynt isod. Yn gryno, mae Rhan 3 yn pennu oedran ymddeol gorfodol, sef 75 oed, ar gyfer rhai swyddi barnwrol ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer barnwyr sy'n eistedd ar ôl ymddeol (ond nid y tu hwnt i 75 oed).

Cymal 103 ac Atodlen 1: codi'r oedran ymddeol gorfodol ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol i 75 oed.

I'r graddau y mae hyn yn gymwys i dribiwnlysoedd datganoledig, mae diben cymal 103 ac Atodlen 1 wedi'i ddatganoli ac felly mae angen cydsyniad y Senedd

Cymalau 105 i 109 ac Atodlen 3: creu swydd 'eistedd ar ôl ymddeol' newydd ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol sydd wedi ymddeol. Os bydd swydd farnwrol wedi'i rhestru yn Atodlen 3 i'r Bil, yna bydd swydd 'eistedd ar ôl ymddeol' gyfatebol yn cael ei chreu. Defnyddir yr un enw ar gyfer y swydd newydd hon â'r swydd farnwrol wreiddiol, gan ychwanegu'r geiriau '(eistedd ar ôl ymddeol)'. At hynny, rhoddir pŵer i'r 'awdurdod cenedlaethol priodol' ychwanegu at y rhestr o swyddi barnwrol yn Atodlen 3 (h.y. pŵer i greu rhagor o swyddi 'eistedd ar ôl ymddeol'). Bydd swydd 'eistedd ar ôl ymddeol' yn ddarostyngedig i uchafswm oedran o 75 oed.

I'r graddau y mae hyn yn gymwys i dribiwnlysoedd datganoledig (a Gweinidogion Cymru, wrth gyflawni rôl yr awdurdod cenedlaethol priodol), mae diben cymalau 105 i 109 ac Atodlen 3 wedi'i ddatganoli ac felly mae angen cydsyniad y Senedd.

Cymal 110 ac Atodlen 4: gwneud diwygiadau sy'n ganlyniadol i Ran 3 o'r Bil. Rhoddir pŵer hefyd i'r 'awdurdod cenedlaethol priodol' wneud rheoliadau sy'n ganlyniadol i Ran 3 o'r Bil.

I'r graddau y mae hyn yn gymwys i dribiwnlysoedd datganoledig (a Gweinidogion Cymru, wrth gyflawni rôl yr awdurdod cenedlaethol priodol), mae diben cymalau 110 ac Atodlen 4 wedi'i ddatganoli ac felly mae angen cydsyniad y Senedd.

- 7.** Mae'r tribiwnlysoedd datganoledig yn cynnwys y rhai a ganlyn:
- a. Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru;
 - b. Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru;
 - c. pwyllgor asesu rhenti a gafodd ei gyfansoddi yn unol ag Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977 (gan gynnwys tribiwnlys priso lesdaliadau a thribiwnlys eiddo preswyl);
 - d. Tribiwnlys Addysg Cymru;
 - e. tribiwnlys a gyfansoddwyd yn unol ag Atodlen 3 i Ddeddf Addysg 2005 (cofrestru arolygwyr yng Nghymru: tribiwnlysoedd sy'n gwrandao apelïadau o dan adran 27);
 - f. tribiwnlys o blith aelodau Panel Dyfarnu Cymru;
 - g. Tribiwnlys y Gymraeg.
- 8.** Ar 12 Awst 2021 gosododd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig gerbron y Senedd o dan Reol Sefydlog 30 – Hysbysu mewn perthynas â Biliau Senedd y DU. Mae'r datganiad ysgrifenedig yn nodi bod rhai o gymalau'r Bil yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru, ond mewn ffordd sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Felly, nid oes angen cydsyniad ar gyfer y cymalau hynny. Yn lle hynny, ar gyfer cymalau o'r fath, mae Rheol Sefydlog 30 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod datganiad ysgrifenedig gerbron y Senedd.

4. Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn

- 9.** Mae paragraffau 8 i 13 yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.
- 10.** Yn benodol, mae paragraff 12 yn nodi barn Llywodraeth Cymru y bydd "oedran ymddeol gorfodol cyson ac ymagwedd gyson at eistedd ar ôl ymddeol ledled Cymru a Lloegr yn osgoi dewis awdurdodaeth gan ymgeiswyr ar gyfer swydd farnwrol" a bod "budd i'r system gyfiawnder yng Nghymru i'r darpariaethau yn y Bil fod yn gymwys i Gymru."

Mae paragraff 13 yn nodi "*Bydd prosiect Comisiwn y Gyfraith sy'n mynd rhagddo ar ddiwygio'r Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru yn cyflwyno adroddiad yn ystod hydref 2021*" ac mae'n cydnabod "*Bydd y newidiadau a nodir bellach yn y Bil, er hynny, yn*

cael eu gwneud a'u rhoi ar waith yn llawer cynt nag a fydd yn wir mewn perthynas ag unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol mewn ymateb i adroddiad Comisiwn y Gyfraith."

11. Ym mharagraff 16 daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad:

"Bwriad cynigion Llywodraeth y DU yn y Bil yw unioni'r driniaeth wahaniaethol rhwng barnwyr cyflogedig a barnwyr y telir ffi iddynt, a darparu ar gyfer hyblygrwydd i ddiwallu anghenion busnes drwy ganiatáu i farnwyr eistedd ar ôl ymddeol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol gwneud darpariaeth gyfatebol ar gyfer tribiwnlysoedd Cymru fel y'u diffinnir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017, a defnyddio'r Bil i wneud y newidiadau deddfwriaethol gofynnol ar hyn o bryd, gan nodi'r prosiect sydd ar y gweill gan Gomisiwn y Gyfraith a datblygiadau polisi sy'n benodol i Gymru mewn perthynas â thribiwnlysoedd yng Nghymru."

5. Trafodaeth a chasgliad y Pwyllgor

12. Ystyriwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 1 Tachwedd 2021.

13. Nodwn y dadleuon a wnaed gan Lywodraeth Cymru y bydd oedran ymddeol gorfodol cyson yn osgoi'r risg o "[d]dewis awdurdodaeth gan ymgeiswyr ar gyfer swydd farnwrol".

14. O ran cydsyniad deddfwriaethol, rydym yn nodi'r darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer. Rydym hefyd yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil, yn hytrach na thrwy gyfrwng deddfwriaeth y Senedd, gan gynnwys perthnasedd yr amserlen adrodd ar gyfer cyflwyno prosiect Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio'r Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru.

15. Mynegodd un Aelod bryder ynghylch yr egwyddor o ddeddfwriaeth a fydd yn gymwys yng Nghymru sy'n cael ei deddfu drwy Fil Llywodraeth y DU yn hytrach na Bil Llywodraeth Cymru.

16. Nid oes gan y rhan fwyaf o'r Pwyllgor wrthwynebiad i gytuno â'r Cynnig.